

Ofcom a'r BBC

Trefniant yn ymwneud â deunydd Ar-lein

17 Mai 2017

1. Cyflwyniad

- (1) Yn wahanol i gwynion ynghylch darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alwad, nid yw Cytundeb y BBC yn gorfodi Ofcom i ddatrys cwynion am safonau yng nghynnwys deunydd BBC ar-lein ac nid oes gan Ofcom unrhyw bwerau gorfodi cysylltiedig.
- (2) Fodd bynnag, mae cymal 60(1) Cytundeb y BBC yn datgan fod yn rhaid i Ofcom ystyried a rhoi barn, gan gynnwys unrhyw argymhellion y bydd yn eu hystyried yn briodol, ynghylch a yw'r BBC wedi glynu wrth ganllawiau golygyddol perthnasol ar gynnwys y deunydd ar-lein yng Ngwasanaethau Cyhoeddus y DU.
- (3) Yn unol â hynny mae Ofcom a'r BBC yn ymrwymo i'r trefniant canlynol yn unol â chymal 60(2) Cytundeb y BBC.
- (4) Mae'r trefniant yn nodi sut y bydd y BBC ac Ofcom yn ymdrin â chwynion am safonau golygyddol deunyddiau ar-lein ("cwynion am safonau ar-lein").
- (5) Mae "cwyn", "deunydd ar-lein" a "chanllawiau golygyddol perthnasol" yn cael eu diffinio i ddibenion y trefniant yn yr Atodlen i'r trefniant hwn.

2. Cwyn i'r BBC

- (1) Rhaid i gwynion am safonau ar-lein yn y lle cyntaf gael eu datrys gan y BBC yn unol â gweithdrefnau cwyno'r BBC.
- (2) Ni fydd Ofcom yn ymyrryd yn gynharach ac yn ymdrin â chwyn ynghylch safonau ar-lein pan na fydd y BBC wedi darparu ateb sy'n derfynol, yn amodol ar gymal 5 isod ("barn derfynol").
- (3) Rhaid i'r BBC hysbysu achwynwyr ynghylch rôl Ofcom dan y trefniant hwn pan dderbyniant farn derfynol y BBC.

3. Cyfeirio at Ofcom

- (1) Os na fydd achwynydd yn cael ei fodloni gyda'r datrysiaid o gwyn am safonau ar-lein gan y BBC, caiff ef/hi gyfeirio'r gwyn a barn derfynol y BBC arni at Ofcom.
- (2) Bydd Ofcom yn ystyried a yw cwyn am safonau ar-lein yn codi materion a allai fod yn sylweddol dan y canllawiau golygyddol perthnasol sy'n haeddu ystyriaeth gan Ofcom.
- (3) Ni fydd Ofcom fel arfer yn ystyried cwyn am safonau ar-lein na chafodd ei gwneud i'r BBC yn unol â'r cyfyngiadau amser yng ngweithdrefnau cwyno'r BBC.
- (4) Ofcom fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a fydd yn derbyn cwyn dan y trefniant hwn.

4. Rhoi barn gan Ofcom

- (1) Os bydd yn cael ei derbyn, bydd Ofcom yn ystyried y gŵyn am safonau ar-lein ac yn rhoi barn ynghylch a wnaeth y BBC lynu at y canllawiau golygyddol perthnasol yn y deunydd ar-lein.
- (2) Bydd Ofcom yn cyhoeddi ei farn, a fydd yn cynnwys pa argymhellion bynnag a fydd yn eu hystyried yn briodol.

5. Ailystyriaeth gan y BBC

- (1) Os, ym marn Ofcom, nad oedd y BBC wedi glynu at y canllawiau golygyddol perthnasol, bydd y BBC yn ystyried barn Ofcom ac yn ystyried a fyddai camau pellach yn briodol.
- (2) Bydd y BBC yn cysylltu â'r achwynydd i roi gwybod iddo ef/hi pa gamau a gaiff eu cymryd, os o gwbl.
- (3) Gan y BBC y bydd y penderfyniad terfynol ar gŵyn am safonau ar-lein.

6. Gweithdrefnau

- (1) Bydd Ofcom a'r BBC ill dau yn pennu a chyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion am safonau ar-lein yn unol â'r trefniant hwn.
- (2) Cyn pennu gweithdrefnau o'r fath, bydd y BBC ac Ofcom yn ymgynghori â'i gilydd.

7. Gwybodaeth a chofnodion

- (1) Os gwneir cwyn, bydd y BBC yn cadw unrhyw ddeunydd cysylltiedig (gan gynnwys y deunydd ar-lein, os ar gael) am o leiaf 42 diwrnod ar ôl y diwrnod pryd y gallai'r BBC ddisgwyl yn rhesymol i'r achwynydd fod wedi derbyn ei farn derfynol.
- (2) Bydd y BBC yn cydymffurfio ag unrhyw gais i gynhyrchu deunydd o'r fath i Ofcom.
- (3) Bydd y BBC yn cadw cofnodion o'r ffordd y bu iddo ymdrin â chwynion am safonau ar-lein am leiafswm o bum mlynedd. Lle y canfuwyd i'r canllawiau golygyddol perthnasol gael eu torri, bydd y cofnodion yn ymwneud â'r gŵyn honno yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Gwneir i ffwrdd â gwybodaeth bersonol ynghylch cwynion yn unol â pholisi cadw data personol y BBC.
- (4) Gallai Ofcom fynnu bod y BBC ac unrhyw berson arall yn darparu gwybodaeth i ddibenion Ofcom o ran ystyried a rhoi barn ar gŵyn am safonau ar-lein yn unol ag erthygl 47 Siarter y BBC.

8. Adolygu

Bydd Ofcom a'r BBC yn adolygu'r trefniant hwn o leiaf unwaith yn ystod cyfnod Siarter y BBC.

.....KEVIN BAKHURST.....

.....DAVID JORDAN.....

Ar ran Ofcom

Ar ran y BBC

ATODLEN

- (1) Mae "cwyn" yn golygu beirniadaeth a wnaed gan ddisgwyl ateb ac sy'n ceisio cydnabyddiaeth o fai neu newid yn y ffordd y mae'r BBC yn gwneud pethau.
- (2) Mae "deunydd ar-lein" yn golygu deunydd a ddarperir ar-lein (ar unrhyw wefan, raglen neu ryngwyneb ar-lein) yng Ngwasanaethau Cyhoeddus y DU, gan gynnwys testun ysgrifenedig, delweddau, cynnwys clyweledol a sain, ond ac eithrio:
 - (a) Rhaglenni (clyweledol neu sain) a ddarperir mewn gwasanaeth rhaglenni ar alwad (e.e. BBC iPlayer, iPlayer Kids);
 - (b) Cynnwys BBC World Service;
 - (c) Deunydd y BBC ar wefan trydydd parti, rhaglen trydydd parti neu ryngwyneb ar-lein trydydd parti (e.e. YouTube, llwyfannau rhannu fideo eraill, bbcworldwide.com, unrhyw wefan nad yw o fewn parth www.bbc.co.uk/);
 - (d) y cyfryngau cymdeithasol (gan gynnwys cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol y BBC a chyfrifon personol cyflogaion y BBC) (e.e. Cyfrif Twitter The One Show, cyfrif Twitter cyflwynwyr y BBC, tudalen Facebook BBC Three);
 - (e) negesyfwrddau a thudalennau sylwadau (e.e. Negesyfwrdd BBC Points of View, sylwadau darllenwyr ar erthyglau newyddion);
 - (f) adnoddau addysgol a dysgu (e.e. BBC Bitesize);
 - (g) cynnwys gan ddefnyddwyr a chynnwys rhyngweithiol nad yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â darllediad neu wasanaeth rhaglenni ar alwad (e.e. BBC iWonder, BBC Make it Digital, BBC Taster); a
 - (h) deunydd corfforaethol y BBC (e.e. areithiau, datganiadau, datganiadau i'r wasg, deunydd hyfforddi'r BBC).
- (3) Mae "canllawiau golygyddol perthnasol" yn golygu rhai hynny o Ganllawiau Golygyddol y BBC sydd mewn grym am y tro ac sy'n adlewyrchu'r safonau a bennwyd dan adran 319 Deddf Cyfathrebiadau 2003 a'r cod sydd mewn grym dan adran 107 Deddf Darlledu 1996 (gyda'i gilydd 'Cod Darlledu Ofcom').